**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
—
**Health and Social Care Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Dr Tracey Cooper
Prif Weithredwr
Iechyd Cyhoeddus Cymru

24 Mai 2022

Annwyl Tracey

Cwestiynau dilynol ar ôl y sesiwn dystiolaeth ar 19 Mai 2022 ar anghydraddoldebau iechyd meddwl

Diolch am ddod i'n cyfarfod ddydd Iau 19 Mai 2022 ac ymateb i'n cwestiynau. Yn dilyn y sesiwn, cytunodd yr Aelodau i ysgrifennu atoch gyda nifer o gwestiynau dilynol, fel sydd wedi'u hamlinellu yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

Byddem yn ddiolchgar o gael ymateb erbyn dydd Gwener 24 Mehefin 2022.

Yn gywir

Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English

## Atodiad: cwestiynau dilynol ar ôl y sesiwn dystiolaeth ar 19 Mai 2022

Yn dilyn y sesiwn dystiolaeth gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 19 Mai 2022 fel rhan o'n hymchwiliad i anghydraddoldebau iechyd meddwl, byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth am y materion a restrir isod. Byddem yn ddiolchgar o gael eich ymateb erbyn dydd Gwener 24 Mehefin 2022.

### Adnoddau

Yn ystod y sesiwn dystiolaeth trafodwyd dull iechyd y cyhoedd o wella iechyd meddwl a lles a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd meddwl, gan gynnwys rôl atal. Roeddech yn cytuno bod angen gwneud cynnydd o ran sicrhau ataliaeth ac ymyrraeth gynnar ar draws yr holl bolisïau a'r holl benderfyniadau a wneir gan y sector cyhoeddus.

1. A oes digon o adnoddau (ariannol a staffio) ar gael yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol a'r sector cyhoeddus ehangach, i gyflawni'r dull iechyd y cyhoedd sydd ei angen i wella iechyd meddwl y boblogaeth?

2. Ble y dylid targedu adnoddau ychwanegol er mwyn mynd i'r afael yn fwyaf effeithiol ag anghydraddoldebau iechyd meddwl?

### Rhwystrau rhag presgripsiynu cymdeithasol

Clywsom gan Ysgol Ymchwil Rhagnodi Cymdeithasol Cymru (WSSPR) fod tystiolaeth y gall presgripsiynu cymdeithasol fod yn offeryn effeithiol i atal a thrin salwch meddwl, ond y gall y defnydd ohono gael ei effeithio gan rwystrau fel cyllid tymor byr, mynediad anghyson at dechnoleg a systemau TGCh anghydnaws, ac amrywiadau o ran cefnogaeth ac ymddiriedaeth meddygon teulu.

3. Pa gamau pellach sydd angen eu cymryd, a chan bwy/ble, i ddatblygu dulliau presgripsiynu cymdeithasol effeithiol a chynaliadwy ym mhob rhan o Gymru? Beth fydd rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru yn hyn o beth?